BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

AWST 2026




# Digwyddiad Iechyd Da'r Ha' 2026



Ar ddydd Mercher chwilboeth ddiwedd Mehefin, cynhaliwyd ein digwyddiad blynyddol, Iechyd Da'r Ha' yng nghanol Caernarfon yn Neuadd y Farchnad. Digwyddiad ymgysylltu ar faterion yn ymwneud ag iechyd, llesiant a gofal yw hwn, ac mae'n gyfle rhagorol i fudiadau'r trydydd sector a'n partneriaid, ddiweddaru'r cyhoedd am y gwasanaethau ac adnoddau sydd ar gael iddynt yn yr ardal. Yn amserol iawn, cynhelir y digwyddiad yn ystod Wythnos Lles y Byd. Mawr yw ein diolch i'r Cyng. Olaf Cai Larsen am agor y digwyddiad eleni eto gydag anerchiad.

Daeth 122 o bobl o bob oed trwy'r drws i dderbyn gwybodaeth am wasanaethau, sgrinio iechyd, ac i holi a sgwrsio a rhannu eu profiadau gyda staff y mudiadau a'r grwpiau gwirfoddol, y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd oedd yn bresennol ar 11 stondin. Roedd Neuadd y Farchnad yn llawn bwrlwm a phobl yn falch o ddod mewn i gysgod yr adeilad hynafol o wres tanbaid yr haul.

Cynhelir digwyddiad nesaf Iechyd Da y Gaeaf yma yn Nolgellau mis Hydref. Mwy o fanylion ymhellach yn y newyddlen.

01286 672 626
www.mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com

# IECHYD A LLESIANT
































MANTELL GWYNEDD
23 – 29/06 Wythnos Lles Y Byd
World Well-being Week
MANTELL GWYNEDD
IECHYD DA'R HA'
25.06.25 11 - 3
Neuadd y Farchnad
Diolch yn fawr iawn!
Thank you!
"Mor ddefnyddiol dysgu am be sy ar gael..."
"Cael cyfle i siarad mor bwysig"
17
"It was so useful to learn about services out there ..."
177
"Digwyddiad ardderchog!"
"Excellent event"
"Wedi cael aelodau newydd i Dementia Actif!"
"New members joined the Dementia Actif group!"
sioned.roberts@mantellgwynedd.com
01286 672626

# Ffarwelio ag Eleri a Jordan





Yn ystod yr haf, rydym yn ffarwelio â dau aelod gwerthfawr o staff wrth i Eleri a Jordan symud ymlaen i benodau newydd yn eu gyrfaoedd.

Ymunodd Eleri â Mantell Gwynedd yn 2013 fel Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol, cyn mynd ati i ddatblygu tîm a gwasanaeth **Social Value Cymru**. Mae Eleri wedi arwain gwaith Mantell Gwynedd ym maes mesur gwerth cymdeithasol ers 2015, a rheolodd brosiect Mesur a Rheoli Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru rhwng 2017 a 2020. Dros fwy na degawd, mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i waith Mantell Gwynedd drwy ddarparu hyfforddiant a chymorth i fudiadau fesur, adrodd a rheoli gwerth ac effaith eu gwaith.

Hoffem ddiolch yn ddiffuant iddi am ei hymroddiad, ei harbenigedd, ei gwaith caled a'r gefnogaeth y mae wedi'i roi i'r trydydd sector yng Ngwynedd dros y blynyddoedd.

Buom hefyd yn ffarwelio â Jordan ddiwedd mis Gorffennaf, ar ôl dwy flynedd a hanner yn y Ganolfan Gwirfoddoli. Ymunodd â ni i sefydlu ac arwain prosiect **Gafael Llaw i Wirfoddoli,** a oedd yn cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau a chymryd eu camau cyntaf tuag at wirfoddoli.
Bu Jordan yn chwarae rhan allweddol wrth sefydlu'r prosiect ac, yn ystod ei gyfnod gyda ni, cefnogodd bron i 200 o bobl gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau.

Diolch o galon i Eleri a Jordan am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y blynyddoedd. Bydd colled fawr ar eu hôl, a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Hoffem hefyd longyfarch Jordan a Shiree ar eu priodas ddiwedd mis Gorffennaf. Dymunwn pob hapusrwydd a chariad i chi ar gyfer y dyfodol.

# Newidiadau i wiriadau DBS




Dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant fod yn ymwybodol o newid pwysig a ddaw i rym ar **1 Medi 2026.**

Mae **Deddf Troseddau a Phlismona 2026** yn dileu'r eithriad goruchwylio. Mae hyn yn golygu y gall gwirfoddolwyr sy'n addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwylio plant yn rheolaidd gael eu hystyried yn rhai sy'n ymgymryd â gweithgarwch rheoleiddiedig *(regulated activity)*, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu goruchwylio gan aelod o staff.

Mae'r newid yn berthnasol pan fydd y gweithgarwch yn digwydd:

- ar fwy na thri diwrnod o fewn cyfnod o 30 diwrnod; neu
- dros nos, gan gynnwys cyswllt â phlant rhwng 2yb a 6yb.

Bydd angen **gwiriad DBS manwl** gyda gwybodaeth o Restr Gwahardd Plant ar **wirfoddolwyr** sy'n ymgymryd â gweithgarwch rheoleiddiedig. Bydd gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr cymwys yn parhau i fod am ddim.

Mae'r **Ddeddf Troseddau a Phlismona** yn ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU, dan arweiniad y Swyddfa Gartref, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

Dylai sefydliadau yng Nghymru felly adolygu rolau gwirfoddol perthnasol a diweddaru eu trefniadau DBS a'u gweithdrefnau recriwtio diogel cyn mis Medi.

Cysylltwch gyda ni am unrhyw wybodaeth neu arweiniad pellach
gwirfoddoli@mantellgwyned.com / 01286 672 626

# Cyfradd milltiroedd newydd i wirfoddolwyr



Mae cyfradd milltiroedd gymeradwy CThEF (HMRC) ar gyfer ceir a faniau wedi cynyddu o 45c i 55c y filltir ar gyfer y 10,000 milltir cyntaf mewn blwyddyn dreth. Mae'r newid yn berthnasol ac yn ôl-weithredol o 6 Ebrill 2026. Bydd y gyfradd yn parhau'n 25c y filltir ar ôl 10,000 milltir.

Mae'r cyfraddau ar gyfer beiciau modur a beiciau yn aros yr un fath, sef 24c ac 20c y filltir. Gall mudiadau hefyd dalu 5c ychwanegol y filltir am bob teithiwr sy'n cael ei gludo fel rhan o weithgaredd gwirfoddoli.

Nid yw mudiadau'n gorfod talu'r gyfradd uchaf, ond gallant ad-dalu gwirfoddolwyr hyd at y cyfraddau hyn heb greu rhwymedigaeth dreth fel arfer.

Dylai mudiadau adolygu eu polisïau treuliau a'u ffurflenni hawlio, a hefyd ystyried ychwanegu 10c y filltir at hawliadau cymwys sydd eisoes wedi'u talu ers 6 Ebrill 2026.



# Prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol



Mae Beca wedi camu i rôl newydd fel **Swyddog Cyswllt Cymunedol** yn Mantell Gwynedd . Yn dilyn blwyddyn werthfawr fel **Swyddog Prosiect Ffrindia' Newydd**, mae Beca bellach yn edrych ymlaen at her newydd ac at adeiladu ar yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau mae wedi'u datblygu wrth weithio gydag unigolion a chymunedau lleol.

Fel Swyddog Cyswllt Cymunedol, bydd Beca yn cefnogi unigolion i adnabod beth sy'n bwysig iddynt ac i ddod o hyd i'r gefnogaeth, y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael yn eu cymunedau. Gall hyn gynnwys cyfleoedd iechyd a lles, grwpiau cymdeithasol, gweithgareddau corfforol, cyngor ymarferol ar fudd-daliadau, tai, dyled neu gostau byw, yn ogystal â grwpiau cefnogi a gwasanaethau arbenigol.

Gall Beca dderbyn cyfeiriadau gan feddygfeydd, gweithwyr iechyd proffesiynol, sefydliadau'r trydydd sector, gwasanaethau cyhoeddus eraill, neu'n uniongyrchol gan unigolion eu hunc



Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda:
beca@mantellgwynedd.com / 01286 672 626

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

## Mis Medi




## Mis Hydref



Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli · Helping Hand to Volunteer Project

# Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli

Mae prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli yn cefnogi unigolion ar draws Gwynedd sydd ag anghenion ychwanegol i wirfoddoli drwy:

· Ddarparu cefnogaeth ymarferol 1 i 1 yn ystod y cyfarfodydd cychwynnol, y broses o baru â lleoliadau, mynychu'r sesiynau cyntaf, ac yn rhoi arweiniad parhaus.

· Gefnogi unigolion sydd ag anableddau, heriau iechyd meddwl, anawsterau dysgu ac unigolion sydd yn di-waith trwy ddatblygu eu lles meddyliol, hyder personol a lleihau unigrwydd.

- Roi pwyslais ar ddatblygiad personol drwy wirfoddoli -
- Magu hyder
- Datblygu sgiliau newydd
- Cwrdd â phobl newydd
- Teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi a'ch cynnwys
- Gwnewch wahaniaeth cadarnhaol yn eich cymuned





Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Huw Bebb
Huw.bebb@mantellgwynedd.com
01286 672626

MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# IECHYD A LLESIANT




## Rhaglen CAMAU CREADIGOL Programme

Awst/August'26

01766 830082 / 07436247418

Marged@drefwerdd.cymru
Lauren@drefwerdd.cymru

| Dyddiad/Date | Amser/Time | Be' sydd ymlaen?/ What's on? | Ble?Where? |
|---|---|---|---|
| Mawrth/Tues 04/08/26 | 10.00-12.00 | Ffeltio Gwlyb/Wet Felting | Swyddfa Dref Werdd Office |
| Mawrth/Tues 04/08/26 | 13.30-15.30 | Grwp 60+ Group | Canolfan Gymdeithasol |
| Iau/Thurs 06/08/26 | 11.00-13.00 | Argraffu mewn Natur/ Printing in Nature | Ardal Blaenau Ffestiniog Area |
| Gwener/Friday 07/08/26 | 10.00-12.00 | Casglu Sbwriel Misol/Monthly Litter Pick | Cyfarfod Swyddfa Dref Werdd Office Meet-up |
| Mercher/Weds 12/08/26 | 16.30-18.30 | Criw Cwiltio/Quilting Crew | Swyddfa Dref Werdd |
| Iau/Thurs 13/08/26 | 10.00-14.00 | Dathlu Dechrau'n Deg | Parc y Sgwar Blaenau |
| Mawrth/Tues 18/08/26 | 10.00-12.00 | Ffeltio Gwlyb/ Wet Felting | Swyddfa Dref Werdd |
| Mawrth/Tues 18/08/26 | 13.30-15.30 | Grwp 60+ Group | Canolfan Gymdeithasol |
| Iau/Thurs 20/08/26 | 11.00-13.00 | Pilates gyda Lauren | Penrhyndeudraeth |
| Mercher/Weds 26/08/26 | 16.30-18.30 | Criw Cwiltio/Quilting Crew | Swyddfa Dref Werdd |
| Iau/Thurs 27/08/26 | 11.00-13.00 | Taith Gerdded/Guided Walk | Ardal Trawsfynydd Area |
| Gwener/Friday 28/08/26 | 10.00-12.00 | Malu Awyr sesiwn i ddynion/session for men | Clwb Rygbi Club |

Gwynedd a Môn age Cymru

## Awst

| LLUN MON | MAW TUES | MERCH WED | IAU THURS | GWE FRI |
|---|---|---|---|---|
| 3 Whist & Dominoes 1.30 | 4 CLWB CELF ART CLUB 10 & 2 | 5 | 6 CLWB GWAU KNITTING CLUB 10YB/AM BRODWAITH EMBROIDERY GROUP | 7 PRYNHAWN GYDA ARFON WYN 2YP/PM |
| 10 Whist & Dominoes 1.30 | 11 CLWB CELF ART CLUB 10 & 2 | 12 SGILIAU DIGIDOL DIGITAL SKILLS GYDA / WITH ABILITY NET 10-12YB/AM | 13 CLWB GWAU KNITTING CLUB 10YB/AM BINGO! | 14 |
| 17 Whist & Dominoes 1.30 | 18 CLWB CELF ART CLUB 10 & 2 | 19 | 20 CLWB GWAU KNITTING CLUB 10YB/AM BREAST CANCER FUNDRAISING AFTERNOON TEA | 21 |
| 24 Whist & Dominoes 1.30 | 25 CLWB CELF ART CLUB 10 & 2 | 26 | 27 CLWB GWAU KNITTING CLUB 10YB/AM | 28 |
| 31 CLOSED GWYL Y BANC BANK HOLIDAY | FFAIR HAF INIGO JONES AWST 29! | | | |

BOOK NOW BY CONTACTING DELYTH: 01286 685926 DELYTH@ACGM.CO.UK

## August

### Sesiynau galw heibio
## Costau byw / Cost of living
### Drop-in sessions

**Awst / August 2026**

| | | |
|---|---|---|
| 03 / 08 | Llyfrgell Porthmadog | 10:00 - 13:00 |
| 07 / 08 | Llyfrgell Dolgellau | 10:00 - 13:00 |
| 07 / 08 | Llyfrgell Blaenau Ffestiniog | 10:00 - 13:00 |
| 13 / 08 | Llyfrgell Cricieth | 10:00 - 12:00 |
| 13 / 08 | Llyfrgell Bala | 14:00 - 16:00 |
| 17 / 08 | Llyfrgell Porthmadog | 10:00 - 13:00 |
| 20 / 08 | Llyfrgell Caernarfon | 10:00 - 13:00 |
| 20 / 08 | Llyfrgell Bethesda | 10:00 - 12:00 |
| 20 / 08 | Llyfrgell Bangor | 13:00 - 15:00 |
| 20 / 08 | Llyfrgell Nefyn | 14:00 - 16:00 |
| 21 / 08 | Llyfrgell Pwllheli | 10:00 - 13:00 |
| 25 / 08 | Llyfrgell Abermaw | 10:00 - 12:30 |
| 28 / 08 | Llyfrgell Tywyn | 10:00 - 13:00 |
| 28 / 08 | Llyfrgell Penygroes | 10:00 - 12:00 |

| Cael sgwrs a gwrando<br>Gwirio budd-daliadau - ydych chi'n hawlio be sydd fod?<br>Helpu efo biliau - Uchafu incwm<br>Cyfeirio at asiantaethau priodol<br>Rhannu gwybodaeth am be sydd i'w gael | Have a chat and listen<br>Benefit check-are you claiming what's yours?<br>Help with bills<br>Income maximisation<br>Refer to appropriate agencies<br>Sharing information about what is available |
|---|---|

LLYFRGELLOEDD Gwynedd LIBRARIES — croeso cynnes — CYNGOR GWYNEDD


www.gwynedd.llyw.cymru/HelpCostauByw
Croesocynnes@gwynedd.llyw.cymru

# IECHYD A LLESIANT



# RYDYM YN HYB CODI SBWRIEL

Offer i'w fenthyg AM DDIM i gasglu sbwriel





## Cysylltwch am ragor o wybodaeth

Mantell Gwynedd

Oriau agor Llun - Gwener / 9yb-5yh
ymholiadu@mantellgwynedd.com
01286 672 626
Ewch i'n gwefan i gwblhau'r ffurflen ymholiad
www.mantellgwynedd.com

MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE

Hyb Codi Sbwriel